# Bwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig: y broses awdurdodi

**Y Diweddaraf am Bolisi'r UE** — Awst 2015

## Cyflwyniad

Ar 22 Ebrill 2015, cyflwynodd y Comisiwn Ewropeaidd gynigion[1] i ddiwygio'r broses awdurdodi ar gyfer bwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig (GM), gan ddiwygio **Rheoliad 1829/2003**[2]. Dywedodd Jean Claude Juncker, Llywydd y Comisiwn Ewropeaidd, mai dyma un o'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer ei fandad.

Mae'r cynigion drafft yn rhoi hyblygrwydd i ganiatáu i Aelod-wladwriaethau unigol gyfyngu neu wahardd y defnydd o fwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig (GM) (fel ffa soia ac india-corn) yn eu tiriogaethau eu hunain. Byddai hyn yn seiliedig ar resymau ar wahân i iechyd a'r amgylchedd, sef elfennau a gaiff eu hasesu gan Asiantaeth Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA).

Mae'r Diweddariad hwn ar Bolisi'r UE yn rhoi: cefndir a chyd-destun y cynigion; crynodeb o'r cynigion newydd; disgrifiad o sut maent yn berthnasol i Gymru; safbwynt Llywodraeth y DU; a hynt y goflen yn yr UE.

[1] COM(2015)177, 2015/0093 (COD) 22 Ebrill 2015 [fel ar 24 Ebrill 2015]
[2] Rheoliad (EC) Rhif 1829/2003 [fel ar 24 Ebrill 2015]

## Cefndir a chyd-destun y cynnig

### Y broses awdurdodi bresennol

**Rheoliad (EC) Rhif 1829/2003** yw'r fframwaith deddfwriaethol presennol ar gyfer awdurdodi bwyd a phorthiant GM.[3] Mae'r Rheoliad yn sefydlu gweithdrefn ganolog lle y caiff cynhyrchion eu cymeradwyo ar **lefel yr UE**.

### Cyflwyno cais

Caiff y defnydd o gynhyrchion GM ar gyfer bwyd a bwyd anifeiliaid ei awdurdodi ar lefel yr UE yn dilyn **cais gan gwmni biotechnoleg**. Rhaid cyflwyno ceisiadau i'r awdurdod cenedlaethol o dan Reoliad 1829/2003 a rhaid iddynt gydymffurfio â'r gofynion a nodir yn **Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 503/2013**.[4] Rhaid i geisiadau gynnwys:

- diben a chwmpas;
- popeth sy'n berthnasol o ran data, astudiaethau a dadansoddiad o'r canlyniadau;
- cynllun monitro;
- cynnig ar gyfer labelu;
- dull canfod; a
- syniad ynglŷn â gwybodaeth gyfrinachol.

Mae'n rhaid i'r awdurdod cenedlaethol gydnabod derbyn y cais o fewn 14 diwrnod. Yna, mae'n anfon y cais i **Asiantaeth Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA)**, sef yr asiantaeth Ewropeaidd annibynnol sy'n darparu asesiad risg gwyddonol ynglŷn â diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid yr UE i'r Comisiwn Ewropeaidd ac Aelod-wladwriaethau. Mae EFSA yn sicrhau bod crynodeb o'r cais ar gael i'r cyhoedd.

[3] *Ibid*
[4] Cyfnodolyn EFSA, New Commission Implementing Regulation on Risk Assessment of GM plant applications: novel elements and challenges, 2013, 11(12) [fel ar 28 Ebrill 2015].

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales
Y Gwasanaeth Ymchwil

## Asesu risg

Mae EFSA yn asesu risgiau'r organeb a addaswyd yn enetig (GMO) i'r **amgylchedd, iechyd dynol a diogelwch anifeiliaid** yn yr UE ar seiliau gwyddonol.

**Panel GMO EFSA** sy'n cynnal yr asesiad risg.[5] Gall roi argymhellion o ran labelu neu amodau o ran defnyddio a gwerthu'r cynnyrch. Fel arfer, bydd EFSA yn cynnal yr asesiad risg o fewn chwe mis i gael y cais a bydd yn rhoi barn wyddonol a gyhoeddir yng Nghyfnodolyn EFSA.[6] Bydd EFSA yn cyflwyno ei barn i'r Comisiwn ac i'r Aelod-wladwriaethau i'w hystyried.

## Ymgynghoriad cyhoeddus

Mae barn ESFA ar gael i'r cyhoedd. Ar ôl ei chyhoeddi, caiff y cyhoedd wneud sylwadau (am 30 diwrnod) ar wefan y Comisiwn[7] am geisiadau o dan Reoliad 1829/2003.

## Y penderfyniad terfynol

O fewn tri mis ar ôl cael barn EFSA, dylai'r Comisiwn gyhoeddi cynnig i gymeradwyo neu wrthod yr awdurdodiad. Os bydd cynnig y Comisiwn yn wahanol i farn EFSA, rhaid egluro pam.

Bydd cynrychiolwyr Aelod-wladwriaethau yn cymeradwyo cynnig y Comisiwn drwy fwyafrif cymwysedig yn y **Pwyllgor Sefydlog ar Blanhigion, Anifeiliaid, Bwyd a Bwyd Anifeiliaid.**

Os nad yw'r Pwyllgor yn cymeradwyo na gwrthod y cynnig drwy fwyafrif cymwysedig, gall y Comisiwn alw **Pwyllgor Apêl**.

Os bydd y Pwyllgor Apêl yn methu â ffurfio barn drwy fwyafrif cymwysedig, **gall y Comisiwn fabwysiadu ei gynnig gwreiddiol.**

Mae awdurdodiadau'n ddilys am uchafswm o **ddeng mlynedd a gellir eu hadnewyddu.**

[5] ESFA, **GMO** [fel ar 27 Ebrill, 2015]
[6] **Cyfnodolyn EFSA** [fel ar 24 Ebrill 2015]
[7] Y Comisiwn Ewropeaidd **Public consultations on GM food & feed authorisation applications under Regulation 1829/2003** [fel ar 19 Chwefror 2014]

Mae Rheoliad 1829/2003 eisoes yn cynnwys darpariaethau (Erthygl 34) sy'n caniatáu i'r Comisiwn neu Aelod-wladwriaethau fabwysiadu mesurau brys yn erbyn rhoi GMO awdurdodedig ar y farchnad / defnyddio GMO awdurdodedig, os yw'n ymddangos bod y cynnyrch yn debygol o beri risg difrifol i iechyd neu'r amgylchedd.

Ers i Reoliad 1829/2003 ddod i rym, **nid yw Aelod-wladwriaethau erioed wedi mynegi mwyafrif cymwysedig** o blaid nac yn erbyn penderfyniad y Comisiwn oherwydd eu barn ranedig ar GMOs. O ganlyniad, mae'r Comisiwn wedi mabwysiadu penderfyniadau awdurdodi heb gefnogaeth barn pwyllgor yr Aelod-wladwriaethau.

## 'Ffactorau cyfreithlon' eraill

Mae Rheoliad 1829/2003 yn darparu y gall y Comisiwn Ewropeaidd ystyried 'ffactorau cyfreithlon' eraill pan fo'n briodol, yn ogystal ag asesiad gwyddonol yr EFSA. Ni ddarperir diffiniad o'r hyn y gallai'r rhain fod, ac nid yw'r Comisiwn wedi defnyddio'r darpariaethau hyn oherwydd ansicrwydd ynghylch cyfreithlondeb eu defnyddio mewn gwahanol amgylchiadau. Yn ogystal, o dan y Rheoliad presennol, dim ond ar gyfer yr UE yn ei chyfanrwydd y gall wneud hyn.

## Graddfa awdurdodiadau bwyd a bwyd anifeiliaid GM yn yr UE

Hyd yma, mae **58 o gynhyrchion bwyd a phorthiant GM wedi'u hawdurdodi yn yr UE**, yn bennaf ar gyfer bwyd anifeiliaid. Mae'r UE yn mewnforio dros 33 miliwn tunnell o ffa soia a addaswyd yn enetig, sy'n werth dros £8.6 biliwn bob blwyddyn.[8] Mae Cymdeithas Gwneuthurwyr Porthiant Ewrop yn amcangyfrif bod **diwydiant porthiant anifeiliaid yr UE yn mewnforio dros 70% bob blwyddyn o'i ofynion o ran india-corn, soia a had rêp**.

[8] Farmers Guardian, **EU Commission warned plans to nationalise GM approvals could 'damage livestock industry'**, 23 Ebrill 2015 [fel ar 28 Ebrill 2015]

Mae Brasil, Ariannin, Paraguay ac UDA yn gynhyrchwyr pwysig ym maes ffa soia a blawd ffa soia, ac mae bron y cyfan bellach yn fwyd GM. [9]

Er yr ystyrir bod y gyfran yn uchel, nid yw'n bosibl mesur y gyfran o gynhyrchion GM o fewn bwyd anifeiliaid a fewnforir gan nad yw'n ofynnol i fewnforwyr ddatgan y cyfanswm. Mae diwydiant porthiant anifeiliaid yr UE o'r farn na ellir osgoi'r mewnforion hyn gan nad yw'r UE yn hunangynhaliol mewn bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys llawer o brotein.[10]

## Crynodeb o brif bwyntiau'r cynnig

Safbwynt y Comisiwn yw bod angen diwygio'r fframwaith cyfreithiol presennol ar gyfer gwneud penderfyniadau ar fwyd a bwyd anifeiliaid GM gan nad yw'n caniatáu ar gyfer ystyried pryderon unigol Aelod-wladwriaethau.

### Gwaharddiadau cenedlaethol

Mae cynnig y Comisiwn[11] yn cyflwyno darpariaethau newydd sy'n caniatáu **i Aelod-wladwriaethau gyfyngu neu wahardd y defnydd o fwyd neu fwyd anifeiliaid GM yn eu tiriogaeth gyfan neu mewn rhan ohoni er iddo gael ei gymeradwyo ar lefel yr UE**. Bydd hyn yn diwygio Rheoliad 1829/2003. Dim ond ar ôl i'r cynhyrchion hyn gael eu hawdurdodi y byddai'r pwerau ychwanegol a roddir i Aelod-wladwriaethau fabwysiadu gwaharddiadau cenedlaethol ar fwyd a bwyd anifeiliaid GM yn gymwys.

Mae'r cynnig hwn yn adlewyrchu diwygiadau diweddar i'r broses awdurdodi ar gyfer tyfu GMOs, **Cyfarwyddeb (EU) 2015/412,** gan ddiwygio Cyfarwyddeb 2001/18 (i gael mwy o wybodaeth gweler Nodyn Ymchwil y Gwasanaeth Ymchwil[12]). Mae hyn wedi rhoi hawliau cyfreithiol cryfach i Aelod-wladwriaethau wahardd tyfu organebau GM ar eu tiriogaethau.

Byddai angen i'r mesurau arfaethedig ar fwyd a bwyd anifeiliaid GM fod yn gydnaws â'r farchnad fewnol ac â fframwaith sefydliadol yr UE. Felly mae'r cyfyngiadau neu waharddiadau a gaiff eu mabwysiadu o dan y Rheoliad arfaethedig yn cyfeirio at *ddefnyddio* bwyd a bwyd anifeiliaid GM ac nid at eu dosbarthu na'u mewnforio.

### Seiliau ar gyfer gwaharddiad

O dan y cynigion drafft, byddai angen i bob Aelod-wladwriaeth sydd am roi gwaharddiad ar ddefnyddio bwyd a bwyd anifeiliaid GM gyfiawnhau hynny fesul achos gan **gymryd i ystyriaeth y GMO o dan sylw, y math o fesur a ragwelir ac amgylchiadau penodol ar lefel genedlaethol neu ranbarthol a allai gyfiawnhau'r fath gam**. Mae'n rhaid i unrhyw fesurau a fabwysiedir gan Aelod-wladwriaethau fod **wedi'u rhesymu, ar sail gymhellol**, ac mae'n rhaid iddynt barchu egwyddorion cymesuredd a gwrth-wahaniaethu (Erthygl 1).

Er mwyn osgoi ymyrryd â chymwyseddau a roddwyd eisoes o dan y Rheoliad 1829/2003, sy'n ymwneud ag asesu risg, mae'r cynigion yn nodi **na fydd Aelod-wladwriaethau yn gallu defnyddio seiliau sy'n gysylltiedig â risgiau i iechyd a'r amgylchedd gan mai EFSA sy'n ystyried y rhain**. Dylid parhau i ymdrin â'r rhain yn unol â gweithdrefn EFSA o dan Reoliad 1829/2003.

### Cyfnod segur

Byddai angen i'r Aelod-wladwriaeth sydd am osod gwaharddiad neu gyfyngiad gyflwyno drafft o'r mesurau a chyfiawnhad cyfatebol i'r Comisiwn. Bydd y Comisiwn yn rhoi gwybod i'r Aelod-wladwriaethau eraill ar unwaith. Mae'r cynigion yn cynnwys 3 mis o 'gyfnod segur' pan fydd yn bosibl i'r Comisiwn ac

[9] Asiantaeth Safonau Bwyd, **GM material in animal feed**, 2 Gorffennaf 2013 [fel ar 27 Ebrill 2015]
[10] Asiantaeth Safonau Bwyd, **GM material in animal feed**, 2 Gorffennaf 2013 [fel ar 27 Ebrill 2015]
[11] **COM(2015)177, 2015/0093 (COD)** 22 Ebrill 2015 [fel ar 24 Ebrill 2015]

[12]Nodyn Ymchwil y Gwasanaeth Ymchwil, **Organebau a Addaswyd yn Enetig (GMOs): Y broses awdurdodi ar gyfer eu tyfu**, Ionawr 2015 [fel ar 24 Ebrill 2015]

Aelod-wladwriaethau eraill wneud sylwadau ar fwriad yr Aelod-wladwriaeth i wahardd y defnydd o gynnyrch bwyd a bwyd anifeiliaid GM.

Ar ddiwedd y cyfnod segur a sefydlwyd, gallai'r Aelod-wladwriaeth fabwysiadu'r mesurau fel y'u cynigiwyd neu eu diwygio i roi ystyriaeth i sylwadau'r Comisiwn neu'r Aelod-wladwriaethau. Nid oes dyletswydd ar yr Aelod-wladwriaeth sydd am osod gwaharddiad i ystyried y sylwadau.

### Cyfnod oedi

Mae'r cynigion yn datgan y dylai unrhyw waharddiadau neu gyfyngiadau o dan y Rheoliad arfaethedig ddarparu ar gyfer cyfnod rhesymol o amser pryd y gellid defnyddio stoc bresennol o fwyd neu fwyd anifeiliaid GM (yr oedd yn gyfreithlon eu defnyddio cyn hyn) cyn mabwysiadu'r gwaharddiad.

## Sut y mae'n berthnasol i Gymru

Mae'r polisi ar gnydau GMO yng Nghymru wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru ond mae'n ofynnol iddi weithredu'n unol â deddfwriaeth Ewrop. Gan mai hi yw'r Aelod-wladwriaeth, y DU sy'n gyfrifol am gynrychioli Cymru yn y Cyngor Ewropeaidd o ran cymeradwyo cais gan gwmni i ddefnyddio bwyd a bwyd anifeiliaid GM ar lefel yr UE.

Caiff Rheoliad 1829/2003 ei roi ar waith yng Nghymru drwy'r Rheoliadau canlynol:

– **Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid a Addaswyd yn Enetig (Cymru) 2004;**

– **Rheoliadau Bwyd a Addaswyd yn Enetig (Cymru) 2004;**

– **Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Holrhain a'u Labelu) (Cymru) 2005**.

Defnyddir bwyd a bwyd anifeiliaid GM yng Nghymru ar hyn o bryd. Byddai'r cynnig newydd yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddewis cyfyngu neu wahardd cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid GM yng Nghymru.

Hyd yn hyn, nid yw Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau datganiad mewn ymateb i gynigion y Comisiwn ynglŷn â bwyd a bwyd anifeiliaid GM. Fodd bynnag, mae Rebecca Evans, y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd, wedi gwneud datganiad mewn perthynas â'r diwygiadau diweddar i'r broses o awdurdodi ar gyfer tyfu GMOs, Cyfarwyddeb (EU) 2015/412.[13] Dywedodd:

> Bydd y datblygiad hwn yn ein helpu i weithredu'n polisi ar gnydau a addaswyd yn enetig, sef cyfyngu ar dyfu cnydau o'r fath a bod yn rhagofalus yn eu cylch.[14]

Yn ddamcaniaethol, gallai achos godi lle y gallai Cymru wahardd defnyddio bwyd neu gynnyrch bwyd anifeiliaid GM er y gall Llywodraeth y DU ganiatáu ei ddefnyddio yn Lloegr. Felly, gallai materion godi yn ymwneud â halogi trawsffiniol.

Mae Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd y Cynulliad Cenedlaethol wedi bod yn dilyn cynigion y Comisiwn ac mae wedi ysgrifennu at Vaughan Gething, y Dirprwy Weinidog Iechyd, i gadarnhau safbwynt Llywodraeth Cymru ac effeithiau posibl y cynigion ar Gymru. Bydd y Pwyllgor yn trafod y llythyr yn nhymor yr hydref, 2015.

## Safbwynt Llywodraeth y DU

***Ychwanegir manylion at yr adran hon pan fydd rhagor o wybodaeth ar gael.***

## Ymatebion rhanddeiliaid

**Mae partneriaid Cadwyn Fwyd a Phorthiant yr UE,** sy'n cynnwys Copa-Cogeca, sef corff amaeth yr UE, a chyrff sy'n cynrychioli gwneuthurwyr, melinwyr a diwydiant biotechnoleg bwyd a phorthiant yr UE, wedi gofyn i'r Comisiwn ailystyried ei gynlluniau

[13] Llywodraeth Cymru, **Datganiad Ysgrifenedig - Penderfyniadau a wneir yn yr Undeb Ewropeaidd ar dyfu cnydau a addaswyd yn enetig i'w gwneud bellach ar lefel genedlaethol**, 11 Chwefror 2015 [fel ar 29 Ebrill 2015]
[14] *Ibid*

drafft i symud y broses awdurdodi GM yn ôl i lefel genedlaethol. Mae'r glymblaid yn nodi y byddai'r cynigion yn gwyrdroi cyflawniadau economaidd yr Undeb Tollau Ewropeaidd a'r farchnad sengl. Dadleua'r glymblaid y dylai'r Comisiwn roi'r brif flaenoriaeth i weithredu'r ddeddfwriaeth bresennol yn iawn cyn dechrau rhoi rhagor o ystyriaeth i newid y weithdrefn bresennol ar gyfer awdurdodi'r farchnad.[15]

Dywedodd y glymblaid **nad yw'r polisi'n dilyn yn rhesymegol o'r sefyllfa'n ymwneud â thyfu organebau GM** gan fod masnach flynyddol fawr eisoes mewn mewnforion GM, er mai ychydig iawn o gnydau GM a gaiff eu tyfu yn yr UE ar hyn o bryd.[16]

**Mae Mute Schimpf, ymgyrchydd ar ran Cyfeillion y Ddaear**, wedi cyhuddo Jean Claude Juncker, Llywydd y Comisiwn Ewropeaidd, o dorri ymrwymiad i sicrhau bod y broses o wneud penderfyniadau yn fwy democrataidd, gan ddweud bod ei gyfraith ddrafft newydd yn llen fwg sy'n methu ag ymdrin â'r diffyg democrataidd sydd wrth wraidd y ddadl ar fwydydd GM.[17]

**Meddai'r Dr Helen Ferrier, prif gynghorydd yr NFU ar wyddoniaeth a materion rheoliadol**:

> Pig and poultry sectors are especially vulnerable, where feed is 55-65% of cost of production. Any increase in price of feed would put significant strain on food producers and would risk making the EU uncompetitive.[18]

[15]Partneriaid cadwyn fwyd a phorthiant yr UE, Datganiad i'r Wasg, **EU food and feed chain partners reject EU Commission move to undermine the Internal Market for Agri-food products**, 8 Ebrill 2015 [fel ar 27 Ebrill 2015]
[16] Farmers Guardian, **EU food chain coalition urges Commission to drop plans to nationalise GM approvals**, 17 Ebrill 2015 [fel ar 27 Ebrill, 2015]
[17]Cyfeillion y Ddaear, **Juncker's empty GMO offer – is TTIP already in force?** 22 Ebrill 2015 [fel ar 27 Ebrill 2015]
[18] NFU, **NFU rejects re-nationalising decisions on GM feed**, 23 Ebrill 2015 [fel ar 27 Ebrill 2015]

## Hynt y goflen yn sefydliadau'r UE

***Bydd yr adran hon yn cael ei diweddaru wrth i'r trafodaethau barhau ym Mrwsel ac wrth i safbwyntiau swyddogol sefydliadau'r UE ddod yn glir.***

Mae'r cynigion yn ddarostyngedig i'r weithdrefn ddeddfwriaethol arferol sy'n golygu bod yn rhaid i'r Cyngor a Senedd Ewrop ddod i gytundeb arnynt.

### Y Cyngor

Mewn dadl ar 13 Gorffennaf 2015, lleisiodd cynrychiolwyr Aelod-wladwriaethau ar y Cyngor Amaethyddiaeth a Physgodfeydd bryderon cryf ynghylch ymarferoldeb y cynigion.[19] Roedd pryder nad oedd y cynigion yn eglur o safbwynt cyfreithiol ac na fyddent yn caniatáu i Aelod-wladwriaethau fabwysiadu mesurau i gyfyngu neu wahardd ar sail gyfreithiol gadarn. Awgrymwyd y gallai'r cynnig godi problemau o ran cysondeb â'r farchnad fewnol a rheolau Sefydliad Masnach y Byd. Dadleuodd Awstria, Denmarc a Gwlad Belg y dylid cadw agwedd gyson drwy'r UE parthed GM.

Roedd y rhan fwyaf o'r Aelod-wladwriaethau yn feirniadol o'r ffaith na chafwyd asesiad effaith i ategu'r cynnig; galwyd ar i'r Comisiwn gynnal asesiad effaith fel y byddai modd iddynt drafod y cynnig yn gall.

### Senedd Ewrop

Argymhellodd ASEau ar y Pwyllgor Amgylchedd, mewn dadl ar 16 Gorffennaf 2015, y dylid gwrthod y cynigion. Mae Giovanni La Via, cadeirydd y Pwyllgor a'r Rapporteur ar y goflen, wedi drafftio adroddiad yn galw am i'r cynigion gael eu gwrthod yn llwyr. Amlygodd y Rapporteur fod gan bob grŵp gwleidyddol amheuon mawr ynghylch y cynigion. Roedd Rapporteuriaid Cysgodol yn cefnogi'r adroddiad drafft ar y sail na fyddai'r cynnig yn rhoi digon o sicrwydd cyfreithiol i Aelod-wladwriaethau

[19] Y Cyngor Amaethyddiaeth a Physgodfeydd: **Outcome of the Council Meeting**, cyfarfod rhif 3402 y Cyngor, Brwsel, 13 Gorffennaf, 2015

sydd am wahardd bwyd a bwyd anifeiliaid GM, y byddai'n dryllio'r farchnad fewnol, ac na fyddai'n gydnaws â rheolau'r WTO.

Gofynnodd Eickhout ASE (y Gwyrddion/EFA, yr Iseldiroedd) am i'r Adroddiad Drafft gynnwys adran a fyddai'n gofyn i'r Comisiwn gyflwyno cynnig newydd ar y mater, a hynny gyda chefnogaeth mwyafrif o'r ASEau.

Serch hynny, mae cynrychiolwyr y Comisiwn Ewropeaidd wedi dweud na fydd dim 'cynllun wrth gefn' ac y byddai'r sefyllfa bresennol yn parhau pe byddai'r cynnig yn cael ei wrthod.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno gwelliannau i Adroddiad Drafft y Pwyllgor Amgylchedd yw 16 Medi 2015. Trefnwyd y bydd ASEau ar y Pwyllgor Amgylchedd yn pleidleisio ar yr Adroddiad Drafft ar 12/13 Hydref 2015. Bydd pleidlais yn y Cyfarfod Llawn ar 24 Tachwedd 2015.

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am **FWYD A BWYD ANIFEILIAID A ADDASWYD YN ENETIG (GMO): Y BROSES AWDURDODI**, Cysylltwch â **KATY ORFORD** ( **katy.orford@cynulliad.cymru**) neu **NIA SEATON** (**nia.seaton@cynulliad.cymru**) Y Gwasanaeth Ymchwil.

**Gweler hefyd:**

– Nodyn Ymchwil y Gwasanaeth Ymchwil, **Organeddau a Addaswyd yn Enetig (GMOs): Y broses awdurdodi ar gyfer eu tyfu**

– Blog-bost y Gwasanaeth Ymchwil ar y cynnig newydd

– Y Comisiwn Ewropeaidd **Awdurdodiadau GMO ar gyfer bwyd a bwyd anifeiliaid**

– **Gwefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd**

Mae ein **hystod lawn o gyhoeddiadau** ar gael ar wefan y Cynulliad: **cynulliadcymru.org/cy/bus-home/research.htm**

Gallwch hefyd ein dilyn ar Twitter: **@SeneddYmchwil**

Rydym yn croesawu eich sylwadau. Dylid eu hanfon at: **Y Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, CF99 1NA** neu anfonwch neges e-bost at **Gwasanaeth.Ymchwil@cynulliad.cymru**

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi llunio'r Diweddariad hwn ar Bolisi'r UE ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant roi cyngor i aelodau'r cyhoedd.

**Rhif yr ymholiad: 15/1857**

**Katy Orford**